

DYDD GŴYL
DEWI HAPUS

WILIA

RHIF 423 MAWRTH 2020
PRIS 50C 0.6 EWRO

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

Y TU MEWN:

2 Arddangosfa'n
dod i ben

2 Cylch trafod
llyfrau Ty Tawe

2 Tyrfe Tawe

3 Lleisiau Lliw
yn Nhreforys

4 Cymdeithas
Ceredigion

4 Cadwch
Gymru'n
Daclus—
problemau gwm
cnoi

4 Colofn Edward
Llwyd

5 Newyddion
Ysgol Gyfun
Bryn Tawe

6 Maen Ceti

7 Cerddi Huw
Chiiswell

8 Eisteddfod
Dafarn Ty Tawe

8 Cefnogi'r
Gymraeg yn lleol
yn ardal Sgeti

MYFYRWYR DRAMA: CYFLE I ENNILL YSGOLORIAETH



Eleni eto, mae Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Abertawe yn cynnig ysgoloriaeth o £2,000 am flwyddyn i unigolion dros 18 oed (ar 1 Medi 2020) sydd am ddilyn cwrs yn un o ddisgyblaethau'r ddrama (perfformio, cyfarwyddo, sgriptio ac ati). Sefydlwyd y cynllun yn 2014, fel rhan o nod y Gymdeithas o hybu'r ddrama Gymraeg yn yr ardal.

Y bwriad yw gwobrwyo un ysgoloriaeth y flwyddyn ond, oherwydd safon uchel yr ymgeiswyr, mae cyfanswm o naw ysgoloriaeth wedi'u rhoi yn ystod chw mlynedd gynta'r cynllun.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr o ddalgylch y gymdeithas, sef Abertawe, Pontarddulais, Llanelli,

Cwm Gwendraeth, Cwm Aman, Cwm Nedd a Chwm Tawe ond crosewir ceisiadau o ardaloedd eraill.

Gweinyddir y broses o wobrwyo'r ysgoloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ysgrifenedig trwy ffurflen gais yn y lle cyntaf ac yna mewn cyfweiliad i'r rhai sy'n cyrraedd rhestr fer.

Am ffurflen gais a/neu fanylion pellach, cysyllter â post@dramaabertawe.com Mae yna dudalen ar facebook hefyd i hybu'r ysgoloriaeth, sef www.facebook.com/dramaabertawe/ sy'n cynnwys mwy o fanylion a gwybodaeth am enillwyr y gorffennol. Y dyddiad cau am

geisiadau yw 30 Mehefin 2020. Beth am ymuno â ni?

Ry'n ni bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd i'n plith ni – falle bod rhai ohonoch chi eisiau actio neu am roi cynnig ar gyfarwyddo; eraill â diddordeb mewn colur neu wisgoedd, neu'n mwynhau chwarae 'roadie' wrth yrru fan a llwytho offer. Mae rhai'n mwynhau'r ochor weinyddol: casglu hysbysebion, llunio'r rhaglen, dosbarthu posteri, cysylltu a'r wasg – mae yna amrywiaeth eang o bethau i'w gwneud, a mae'r criw i gyd yn hapus i gynorthwyo'i gilydd yn ol yr angen. A mae 'na lot fawr o hwyl i'w gael.



AR WAELOD Y DARLUN GWELI'R ADFEILION SIOP FAWR BEN EVANS.

ABERTAWE WEDI'R BOMIO

Cafodd y llun hwn o Abertawe ei dynnu'n fuan ar ôl y tridiau o fomio a ddiodeffodd Abertawe yn yr Ail Ryfel Byd. Mae adeiladau'r stryd fawr i'w gweld yn glir ar y dde, ond mae canol y dref yn ulw. Oes rhywun yn gwybod ym mha gylchgrawn a phryd? Dim ond y ddalen â'r llun a ddaeth i law Wilia.



0 700461 826385

**CYLCH TRAFOD LLYFRAU
Tŷ TAWE—**

Gwirionedd gan Elinor Wyn Roberts

Marciau'n amrywio o 5 i 9

- "Cefais fy nal yn syth – wedi mwynhau'n enfawr. Roeddwn i'n gallu gweld cyfnodau'r galar ac effaith y brofedigaeth. Wedi mwynhau'r darnau telynegol yn fawr."

- "Yn edmygu'r awdur am fynd i'r afael â phynciau sy'n dal braidd yn tabŵ yn ein cymdeithas, sef marwolaeth a galaru."

- "Teitl yn addas. Os dych chi wedi colli rhiant a chlirio'r tŷ, dyma'ch stori bersonol chi. Dim syniad sut i drefnu angladd; cael gwared ar bethau, a sylweddoli eich bod yn cael gwared, nid ar bethau, ond ar hanes teulu; rhoi pethau i ffwrdd, eu gweld mewn ffenestr siop elusen, a theimlo'n euog."

- "Heb fwynhau, wir – tybed a oedd hi wedi cael rhyw fath o salwch ar ôl marwolaeth ei thad?"

- "Siawns bod ysgrifennu'r llyfr yn therapi defnyddiol i'r awdur drwy gofnodi teimladau ac ati. Mae'n sôn yn y diolchiadau fod y llyfr wedi dechrau sgysgiau na fyddai wedi'u cael fel arall."

- "Wedi mwynhau llawer ohono – ond, bob tro ro'n i'n rhoi'r llyfr i lawr, do'n i ddim wir eisiau ei godi eto. / - "Hyfryd darllen tafodiaith sir Gâr." / - "Llawer o Saesneg heb ishe yn y llyfr e.e. tw-dei, hapnodd, ambulance chaser, what's new, line up, rial hiro, 'I need to ask you some questions'."

- "Dechreuais ddarllen ym mis Ionawr ac yna dros y penwythnos cyn y cyfarfod – allaf i ddim dweud fy mod i weld gweld eisiau darllen y gweddill. Heb fy nal i'n emosynol."

- "Mae bron fel llawlyfr ar gyfer sut i ymdopi â galar a marwolaeth."

- "Braf gweld yn y stori bod y plant/wyrion yn cael eu cynnwys yn y trefniadau, e.e. mynd i weld y corff/bod yn yr angladd."

- "Hawdd i unrhyw ddarllenwr sy' wedi profi marwolaeth rhiant /rhieni/cofrestru marwolaeth /trefnu eu hangladd /clirio'r tŷ /camu lan i fod y to hŷn ayyb i uniaethu â'r hyn mae'r awdur yn ei ddweud. Sylwadau am unigrywdd galar/profi ton o alar ar adegau heb rybudd yn brofiad sy'n gyffredin i'r sawl sy'n galaru."

- "Sylwadau gwych o'r cyfnod rhyfedd/afreal rhwng marwolaeth ac angladd, pan mae'n rhaid dal i wneud pethau cyffredin bywyd, a mynd i weld y corff a phwysigrwydd y pethau bychain fel agor y botwm gwaelod ar wasgod ei thad."

- "Mae'r llyfr yn rhannu'n dair rhan. Mae hyn yn iawn ond dwi'n hoff o benodau mewn llyfr." / - "Mae Caerfyrddin fel tref yn cael ei phortredu'n ardderchog." / - "Fe lefais i bron trwy'r llyfr, ac roeddwn i'n siwps erbyn iddyn nhw wasgaru'r llwch."

- "Alla'i ddim dweud bo fi wedi mwynhau darllen y llyfr. Bach yn "depressing" fel pwnc a dim llinyn stori fel byddai mewn nofel. Braidd yn "boring" yn aml, e.e. disgrifio cerdded yn y nos am bedair tudalen!"

- "Doeddwn i ddim yn teimlo'n gyffyrddus â'r ffaith fod y tad yn dod yn ôl i'w gweld hi mor aml ond dyna'r unig nodyn negyddol."

- "Ro'n i'n sgimio'r darnau lle roedd hi'n cwrdd â'i thad."

- "Ro'n i'n gweld arwyddocâd i'r cerdded o gwmpas y dref o ran camau'r galaru – roedd yr afon yn thema hefyd – yn newid o fod yn fygythiol ar y dechrau i fod yn dawel erbyn y diwedd."

- "Ambell gyffyrddiad hyfryd, fel y sôn am y piano yn cael ei adael ar y stryd i'w gasglu gan y cyngor."

- "Wrth gwrs, mae llais yr awdur yn amlwg iawn. Mae hi'n nabod ei hun yn dda ac yn gwneud hwy! am ben ei hun."

Byddwn yn trafod y canlynol ym mis Mawrth. Croeso i bawb, 7:30 yn Nhŷ Tawe: 9 Mawrth Pwyth, Haf Llywelyn, Y Lolfa, £8.99



**Straeon Abertawe—
ARDDANGOSFA YN
DOD I BEN MAWRTH 15**

I ddathlu hanner canmlwyddiant Abertawe fel dinas, mae'r Glynn Vivian yn cyflwyno Straeon Abertawe, arddangosfa a fydd yn cynnwys y detholiad mwyaf o'n casgliad parhaol a arddangoswyd erioed.

Mae casgliad yr oriel yn cynnwys gwaith o'r 18fed ganrif hyd at ein hoes fodern ac mae'n cyflwyno portread eclectig ac unigryw o'r ddinas: y dirwedd newidiol sydd wedi ysbrydoli artistiaid am ganrifoedd, o fryniau serth canol y ddinas a thirluniau cyfagos Townhill, Mayhill, y Mwmbwls a Dynfant, i'n morlin hyfryd.

Mae dwy brif ran i'r arddangosfa a defnyddiwyd y themâu bras *Pobl a Lleoedd Abertawe*.

Mae *Pobl a Lleoedd Abertawe*'n cynnwys portreadau o'r cyfoethog a'r enwog, megis y gantores opera Adelina Patti, y bardd Vernon Watkins, ac Arglwydd Feiri'r gorffennol yn ogystal â gweithwyr megis glowyr, casglwyr cocos a gweithwyr y dociau - a hyd yn oed ein ci annwyl, Jac Abertawe. Bydd strydoedd Abertawe, ei morlin hyfryd a'i diwydiant hefyd yn ymddangos, o dirweddau amaethyddol i fomio canol y ddinas; caiff rhan fawr o Abertawe ei chynnwys yma.



Gallai pecyn offer newydd, am ddim, leihau cyfraddau sbwriel gwm cnoi hyd at 64%

Mae deunydd ymgyrchu ar gyfer cyngorau a pherchnogion eiddo gan Mars Wrigley a Behaviour Change wedi ysgogi gostyngiad arwyddocaol a pharhaus mewn sbwriel gwm cnoi Gallai pecyn offer am ddim o ddeunyddiau ar gyfer awdurdodau lleol

a pherchnogion eiddo leihau sbwriel gwm cnoi hyd at 64%.

Mae'r pecyn offer, a ddatblygwyd gan y fenter gymdeithasol, Behaviour Change, mewn partneriaeth â Mars Wrigley, yn cynnwys ystod o ddeunyddiau heb frand, am ddim, a gynlluniwyd i fynd i'r afael â sbwriel gwm cnoi yn y DU. Mae deunyddiau'r ymgyrch wedi cael eu rhoi ar brawf mewn nifer o fannau cyhoeddus, yn cynnwys canolfannau siopa, gorsafoedd rheilffordd a hyd yn oed dangosyddion electronig arosfannau bws, ar ôl i ymchwil ddangos mai dyma'r lleoliadau lle mae sbwriel gwm cnoi ar ei uchaf.



Dyw tim rygbi Cymru wedi gwneud yn wych, mae cwmni Cymraeg ar gael yn Nhŷ Tawe

WILIA

Y mis hwn yng ngofal Steve Morris. Diolch yn fawr i'n cyfranwyr fel arfer. Y mis nesaf yng ngofal Elin Meek
Anfoner cyfraniadau i wilia@hotmail.co.uk erbyn 20 Mawrth



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

LLEISIAU LLIW YNG NGHYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

Agorwyd Rhaglen 2020 gyda noson o gofrestru ac adloniant. Ar y noson, ymunodd 60 o aelodau ar gyfer blwyddyn arall o gyfarfodydd y Gymdeithas. Roedd yr adloniant yng ngofal "Lleisiau Lliw." Arweinydd y côr o ferched yw Berian Lewis a chyflwynwyd y noson gan un o aelodau'r côr, Heledd Clarke. Cafwyd dadganiadau o safon gan y cantorion a'r unawdwy'r talentog ac roedd y noson wrth fodd yr aelodau ac yn agoriad ardderchog i'r



tymor newydd. "Noson y Tafodieithoedd" oedd y cyfarfod ym mis Chwefror. Fe gafwyd cyfraniadau oddi wrth y Parchg. Derwyn Morris Jones (Iaith Rhosllannerchrugog), Elizabeth Jones a Llinos Owen (Cwm Gwendraeth) a Brethonig Morgan (Sir Drefaldwyn). Roedd y cyflwyniad ar dafodiaith Gwmtawe yng ngofal John Evans. Yno i gynnig sylwadau diddorol a gwerthfawr ar gynnwys y cyflwyniadau roedd Dr. Beth Thomas, (ar y

chwith yn y llun). Yn enedigol o Dreforys, mae Beth wedi ymdeol o'i swydd o Geidwad Hanes ac Archaeoleg Amgueddfa Cymru ac yn adnabyddus am ei gwaith ymchwil ar ein tafodieithoedd. Yn dilyn cyflwyniad agoriadol gan Beth a chyfraniadau diddorol ac amrywiol yr aelodau aeth Beth ymlaen i dynnu sylw at y nodwed-dion a ddenodd ei sylw yn y cyfraniadau. Daeth y noson i ben gyda Beth yn gosod sialens i ni **adnabod detholiad o'r lleisiau a**

gasglodd ar hyd a lled Cymru. Parhaodd y sgwrsio a'r trafod dros gwpaned o de, gyda phawb yn cytuno **fod y Gymraeg a'i hamrywiaethau yn cyfoethogi ein bywydau yn ddyddiol.**

Cynhelir cyfarfod mis Mawrth yn **Festri'r Tabernacl, Treforys, nos lau Mawrth 19 am 7.00.y.h.** Gwestai y Prifardd Robat Powell ar y noson yw Bev Lennon. Mae gwreiddiau Bev yn Jamaica. Ganed hi yn Brixton yn Ne Llundain, a threuliodd gyfnod ym maes adloniant ysgafn gan ddyndwared, ymhlith erall, Maggie Thatcher! Ar hap, symudodd i Gaerdydd ac aeth ati i ddysgu Cymraeg fel oedolyn. Treuliodd gyfnod fel athrawes Gymraeg ac yn Eisteddfod Genedlaethol **Llanrwst 2019 derbyniwyd hi i'r Orsedd drwy anrhydedd.** Edrychwn ymlaen at noson o hwyl yn ei chwmmi ac estynnir **croeso i ddarlennwyr "Wilia" ac, enwedig, i ddysgwyr yr ardal ymuno â ni.**



Filò gan Siân Melangell Dafydd

"Carcharorion o'r Eidal sy'n meiddio dweud eu straeon eu hunain sydd yn fy nofel newydd," medd Siân Melangell Dafydd, gan ychwanegu, "tydi gwirionedd pawb ddim yr un peth."

Mae'r llyfr, sy'n cael ei lansio ar y cyntaf o Fawrth, yn dilyn Guido Fontana a'i gyfoedion sydd yn darganfod cartref yng Nghymru. Ond does ganddyn nhw ddim hawliau, dim arian, dim byd fel carcharorion rhyfel (PoWs), heblaw eu tafodieithoedd amrywiol, a'u straeon.

"El Alamein a'r frwydr yno yw prif ddigwyddiad

bywyd Guido a'i ffrindiau," meddai Siân, "ond tra'u bod nhw yng Nghymru. Tydyn nhw ddim yn trafod hynny. Dweud straeon i basio'r amser maen nhw, tydyn nhw ddim yn sôn am erchyllderon fel y rhyfel a fu."

"Mae'r carcharorion yn cael eu hunain yng Nghymru tra bo rhyfel yn mynd yn ei flaen hebddyn nhw. Hynny sy'n rhoi persbectif newydd ar gyd-fyw, ar elyn ac ar gyfeillgarwch."

Mae byd natur yn chwarae rôl bwysig yng ngwaith Siân. Canolbwyntiodd ei nofel gyntaf, *Y Trydydd Peth* (2009), ar y perthynas rhwng dyn â'r afon Dyfrdwy, ac mae'r themâu naturiol hyn yn dal i godi yn *Filò*. Y tro yma, planhigion sy'n dwyn diddordeb Siân. Bydd *Filò* ar gael yn Siop Ty Tawe am bris £8.99 o ddydd Llun yr 2^{il} o Fawrth ymlaen.

Côr Ty Tawe yn sgwâr y Castell

Cymerodd Côr Ty Tawe ran yn nathliad Gwyl Ddewi Cyngor Abertawe, trwy ganu ar y llwyfan gerddoriaeth yn Sgwâr y Castell. Canodd y côr gyfres o ganeuon Cymraeg, gan gynnwys rhai Robat Arwyn.

Bydd y côr eleni'n dathlu ei 30 mlwyddiant, gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cinio, gan gynnwys taith gerdded, cinio i gyn aelodau a chyngerdd dathlu'r 30 pan gaiff Er Hwyllo'r Haul, o waith Robat Arwyn, ei berfformio.

ANGHARAD PRICE O'R ARDD FOTANEG GYDA CHYMDEITHAS CEREDIGION

Doth Angharad Phillips o'r Ardd Fotaneg i siarad

efo ni ym mis Chwefror i sôn am yr holl waith maen nhw'n gwneud i adnewyddu'r llynnoedd yn y cwm tu ôl i'r Tŷ Gwydr Mawr. Tybed faint ohonoch chi sydd wedi ymweld â'r Ardd heb grwydro ymhellach na'r ardd â'r mur o'i chwmpas, y caffî a'r Tŷ Gwydr Mawr? Yn y blynyddoedd i ddod byddech chi'n siŵr o gerdded ymhellach



achos mi fydd llawer mwy i'w weld. Mae gwaith yn mynd ymlaen i ddod â'r gerddi yn ôl i sut oedden nhw yn amser William Paxton. Roedd Paxton wedi ychwanegu at y gwaith roedd y teulu Middleton wedi gwneud i fyny at 1789 wrth greu neclis o lynnoedd i lawr yn y cwm. Yn raddol o

ganol y 19eg ganrif ymlaen aeth y parcdir yn dir amaethyddol unwaith eto. Erbyn 1934 roedd y tir dan ofal Cyngor Sir Gaerfyrddin ac yn gyfan gwbl yn dir ffermio.

William Wilkins, Cymro, arlunydd ac aelod sylfaenol o Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru cafodd yr ysbrydoliaeth i hyrwyddo Neuadd Middleton fel safle Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Roedd adfer y parcdir yn rhan fawr o'i weledigaeth. Yn y flwyddyn yma bydd llawer o'r gwaith yn cael ei gwblhau a bydd yr Ardd yn aeddfedu o flwyddyn i flwyddyn. Felly, y peth cyntaf ar eich rhestr bwced y flwyddyn yma yw ymweliad â'r Ardd a gwnewch yn siŵr o wneud ymweliadau cyson o hyn ymlaen. Cofiwch Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yw hi a rhywbeth i ni ymfalchio ynddi!

Diolch yn fawr i Angharad am agor ein llygaid i drysor ar stepen ein drws.



Tydan ni'n lwcus fel Cymry, yn y Ddraig Goch mae gennym y faner gorau yn y byd, heb amheuath. A pheth gwell na'r cennin Pedr fel arwyddlun? Mae hanes go iawn tu ôl i'r faner wrth gwrs a gallwn ni fynd i Ddinas Emrys, ger Beddgelert a sefyll uwchben ble roedd y Ddraig Goch a'r Ddraig Wen yn ymladd. Ond dyw'r stori yna ddim yn wir meddwch chi, ond a ydych chi'n hollol siŵr? Roedd ein gelynon dros y ffin yn gwybod bod dreigiau yng Nghymru achos ar y mapiau cynnar doedd dim manylion i ddangos yn ein gwlad ddewr ni, dim

ond y frawddeg 'Here be Dragons'!

Yn fy nyddiau i yn yr ysgol go brin fydd y cennin Pedr mewn blodau ar gyfer diwrnod ein nawddsant a'r cennin roedden ni'n gwisgo i'r ysgol ar ddydd Gŵyl Dewi. Bechgyn drygionus oedden ni wrth gwrs a'n harfer oedd cnoi'r dail agosach at ein cegau. Roedd neuadd yr ysgol yn llawn o oglau cennin yn ystod y gwasanaeth boreol. Plant yntel!

Roeddwn i'n synnu gweld cennin Pedr mewn blodau tu allan i'r capel ble mae'n gymdeithas Cymraeg yn cyfarfod a hynny ar y 13eg o fis

Ionawr! Tybed oedd hyn yn arwydd o'r newid hinsawdd? Dw'n i ddim, ond mae'r sinig ynof fi yn meddwl mai rhywbeth i wneud efo'r diwydiant blodau ydi hynny, wedi bod yn gweithio ar fagu gwahanol straen i ehangu'r tymor, siŵr o fod. Ond dw i ddim yn cwyno, mae'r blodyn yn ein sicrhau bod tymor y gwanwyn ar y ffordd a'r byd yn ailddechrau efo bywyd, a lliwiau, newydd. Ardderchog!

Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi!



Dean Baker, pennaeth Menter Abertawe, yn modelu stoc diweddaraf Siop Ty Tawe, sydd ar gael i bawb ac yn arbennig i rai sydd am ddod i weld y gemau rygbi rhyngwladol yn Nhy Tawe—croeso i bawb!

Y DIWEDDARAF O YSGOL GYFUN BRYN TAWE

CYNGOR GYRFAOL
SEREN YN STADIWM Y
LIBERTY I DDISGYBLION
BLWYDDYN 11

Ar brynhawn Dydd Mercher Chwefror y 5ed fe aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 11 i gyfarfod yn Stadiwm y Liberty lle yr oedd darlithwyr a chyn-fyfyrywyr yn siarad am, ac yn rhoi cyngor i ddisgyblion ar sut i fynd ati i wneud dewisiadau addysgiadol doeth. Cafwyd sesiynau a oedd yn cynnwys gwybodaeth werthfawr ar y ffordd orau o wneud ceisiadau llwyddiannus i brifysgolion cystadleuol. Manylwyd hefyd ar yr amryw gyrsiau oedd yn cael eu cynnig mewn nifer o brifysgolion. Yr oedd y prynhawn hefyd yn gyfle i ddisgyblion holi ynghylch gofynion pynciol a fyddai angen arnynt ar gyfer gwneud cyr-

disgyblion yn y maes siarad cyhoeddus a dymunwn yn dda iawn i'r tri ohonom i'r dyfodol. Hyfforddwyd y tîm gan Mr Chris Shaw, pennaeth yr adran Saesneg.

Dydd Miwsig Cymru

Roedd dydd Gwener y 7fed o Chwefror yn ddiwrnod arbennig! Fel rhan o ddatiliadau Dydd Miwsig Cymru, gwahoddwyd criw o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Gwyr i gael awr o ddisgo a chyfle fwynhau cerddoriaeth Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Roedd disgyblion blwyddyn 8 wrth eu boddau yn dawnsio a chymdeithasu tra'n gwrando ar y gerddoriaeth. Diolch yn fawr i'r ddwy DJ - Nansi a Caitlin o fl 13 Bryn Tawe - am gyflwyno'r disgyblion i gerddoriaeth fodern Gymraeg. Edrychwn ymlaen at flwyddyn nesaf!

Prosiect Ieithoedd B17 - 'Arwyr Fy Ieithoedd: Fy Ieithoedd i'

Profwyd gwledd o'r radd flaenaf yn Amgueddfa'r Glannau ddiwedd Ionawr eleni, trwy gyfrwng y cyflwyniadau graenus a baratowyd gan ddisgyblion blwyddyn 7 ar draws y MDaPh Ieithoedd. Bu'r disgyblion wrthi'n ddyfal yn eu gwersi Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg yn ymestyn eu dealltwriaeth o amgylch arwyr yn niwyllynnau'r tair

iaith. Y cwestiwn allweddol wrth law yr oedd pob tasg ac isuned yn cyfrannu at ei ateb oedd: 'Pwy yw'r arwyr sy'n ysbrydoli fy hunaniaeth i?' Ymysg yr isunedau pwysigaf yr oedd 'Arwyr Fy Ysgol' yn y Gymraeg - uned a archwili-ai bwysigrwyd yr unigolion y tu ôl i enwau llysoedd yr ysgol - ynghyd â 'Roald Dahl: A Welsh Literary Hero' y Saesneg a 'Les Héros Francophones' (Arwyr Ffrangeg eu

hiaith) yn y Ffrangeg. Datblygodd y disgyblion ymwybyddiaeth gyfoethog o'r cysylltiad annatod rhwng iaith a diwylliant a'r modd na all neb weld y byd ond trwy bersbectif yr ieithoedd y mae ef neu hi'n eu hadnabod. Daeth canmoliaethau lu i law gan rieni, staff yr amgueddfa a sawl aelod o'r cyhoedd a hwythau oll wedi medru bachu ar berfformiadau'r disgyblion.

TAITH MANDARIN BLWYDDYN 8 I FANCEINION I DDATHLU Y FLWYDDYN NEWYDD TSIEINEAIDD

Ar Ddydd Gwener y 24ain o Ionawr fe drefnwyd trip i ddisgyblion blwyddyn wyth i Fanceinion er mwyn bod yn rhan o ddatiliadau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd y ddinas. Yr oedd hi'n ddiwrnod hir, llawn bwrlwm! Dechreuodd yr ymweliad gyda thaith gerdded o gwmpas rhannau o ganol y ddinas gan gynnwys ymweliad â'r ysgol gerdd a'r eglwys gadeiriol fendigedig. Uchafbwynt y daith oedd gweld yr addurniadau Tsieineaidd yn sgwar y Santes Ann. Profwyd hefyd wrth gwrs y diwylliant Tsieineaidd yn ardal 'Chinatown' y ddinas wrth i'r disgyblion siopa yn y siopau, gweld bwydydd amrywiol yn cael eu coginio yn y stondinau amrywiol, ac yn ogystal, profi bwyd dwyreiniol mewn bwyty enwog yn yr ardal. Yn ystod y prynhawn, bu'r disgyblion ynghlwm gyda gweithgareddau diwylliedig a oedd wedi cael eu trefnu gan 'Ganolfan Tsieina Manceinion'. Cafwyd gweithdai creu lantern a barcod, sesiwn Caligraffi a gwers lafar i ddysgu termau arbennig sydd yn perthyn i'r dathliad arbennig hwn. Braff oedd cael y cyfle i fedru dysgu am, a mwynhau achlysur sydd yn holl bwysig yn y calendr Tsieineaidd.



siau arbennig yn y brifysgol. Dadlau dros Shakespeare Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm siarad cyhoeddus o chweched dosbarth yr ysgol am ennill rownd ranbarthol cystadleuaeth siarad gyhoeddus 'Youth Speaks' y Rotari yn Ysgol Gellifedw ac am gipio'r ail wobwr yn y rownd derfynol yn Ysgol Islwyn, ger Casnewydd ar yr 8fed Chwefror. Rhaid canmol perfformiadau holl aelodau'r tîm, gyda Caitlyn, Steffan a Nansi'n cyflwyno'r dadleuon dros y datganiad 'Cred y tŷ hwn ddylai astudio Shakespeare fod yn statudol yn yr ysgol'. Bu'r gystadleuaeth yma'n ffarwel ar ôl sawl blwyddyn o lwyddiant i'r



Maen Ceti

Yr uchafbwynt o daith i Gŵyr ydy ymweliad i Gefn Bryn. Cefn Bryn ydy asgwrn cefn Gŵyr. Mae wedi'i wneud o hen dywodfaen coch felly mae'n sefyll dros weddill calchfaen Gŵyr. Mae'r pwynt uchaf o Gefn Bryn tua 188m, ail i Rosydd Rhosili, ond o'r copa rwyd ti'n gallu gweld cyfan y Gŵyr.

Yn ystod yr Oes Efydd cafodd Cefn Bryn ei ddefnyddio am ddefodau claddu. Mae tua chwe deg carnedd wedi cael eu darganfod. Yr enwocaf, a'r mwyaf, ydy Maen Ceti (Arthur's Stone yn Saesneg). Mae Maen Ceti yn enfawr, yn pwyso tua 25 tunnell. Er hynny, cyn 1693 roedd y garreg yn 10 tunnell mwy. Dywedodd rhai pobl ei bod wedi cael ei tharo gan fellt yn ystod storm enfawr neu, efallai, ceisiodd melinydd i dorri'r garreg er mwyn gwneud maen melin newydd, ond roedd y



Yn ystod nosau gwyllt, mae llawer o bobl wedi gweld ceffyl gwyn gyda marchog dewr ar ei gefn yn carlamu ar draws Cefn Bryn ac yn diflannu o dan Maen Ceti. Ai'r Brenin Arthur ydy e? Hefyd, yn yr haf pan mae'r tywydd yn boeth iawn (felly dim llawer), mae Maen Ceti yn teithio yn araf dros yr eithin at nant lleol i dorri ei syched. Yn olaf, mae Maen Ceti yn gallu helpu ti os rwyd ti eisiau gweld os yw dy gariad yn dy garu ti go iawn (ond dim ond os wyt ti'n ferch). I ddarganfod yr ateb, mae rhaid i ti fynd i Maen Ceti yn y nos o dan olau'r lleuad llawn. Nesaf, mae rhaid i ti gynnig cacen i'r garreg hudol. (Mae'r cacen yn cael ei wneud o mêl, llaeth a haidd.) Wedyn mae rhaid i ti grobian tair gwaith o gwmpas y garreg ar dy ddwylo a phen gliniau. Os mae dy gariad yn ymddangos nesaf i Maen Ceti yna mae e'n dy garu di yn hollol. Pob lwc!



Beth bynnag ydy'r rheswm mae'r rhan wedi torri yn dal i fod nesaf i'r brif garreg.

Cafodd y garreg ei symud gan rewlifoedd dros 10,000 blynnydoedd yn ôl, o'r gogledd i'r copa o Gefn Bryn. Er hynny, fel arfer, mae llawer o straeon rhyfedd i esbonio pam mae'r garreg yn eistedd ar y brig o Gefn Bryn. Yn gyntaf, mae rhai pobl yn dweud y

daeth Dewi Sant o hyd i'r garreg yn ei sandal a thafodd e'r garreg tuag at Cefn Bryn. Pan laniodd y garreg, tyfodd hi i fod yn anferth. Mae Maen Ceti wedi bod yn enwog trwy Prydain. Yn y 15fed ganrif, glaniodd Harri VII ac ei filwyr yn Aberdaugleddau a dechreuon nhw gerdded tuag at Gaeau Bosworth i ymladd Richard III a dyfod yn Frenin. Roedd Harri eisiau ymweld â Maen Ceti er mwyn cael lwc yn y frwydr i ddod. Roedd rhaid

rhan newydd yn rhy fawr i symud. Dywedodd eraill bod Dewi Sant wedi hollti'r garreg gyda'i gleddyf nerthol achos roedd derwyddon yn addoli'r garreg.

iddo fe wneud amdaith o 128 milltir i weld y garreg. Os rwyd ti'n mynd i Maen Ceti yn y nos, byddi di'n gweld llawer o bethau anarferol.

Geirfa
tywodfaen-sandstone
calchfaen-limestone
Oes Efydd-Bronze Age
melinydd-miller
hollti-to cleave
efodau claddu –burial rituals
nerthol-powerful
derwyddon-druids
addoli-to worship
rehwlifoedd-glaciers
anferth-massive
amdaith-detour
eithin-gorse
haidd-barley

Awdur: Marc Kelleher
Fotograffydd: Florence Kelleher



KAREN OWEN YN NHY TAWE

Daeth Karen Owen i Dy Tawe i gyflwyno cerddi yn ei llyfr diweddaraf, Dedwydd a Diriaid. Cerddi ar ddau begwn bywyd ydyn nhw, o'r hapus i'r ofnadwy. Roedd y cerddi wedi eu tapio ganddi, a rhai o bobl amlwg Cymru'n eu darllen i gyfiliant cerddoriaeth. Cerdd am ymweld â sw oedd y brif gerdd, a chyfle i dynnu cymhariaeth rhwng cyflwr y gwahanol anifeiliaid a chyflwr y sw ei hun a chyflwr Cymru ac amodau byw yn y byd.

CERDDI HUW CHISWELL A HANES EI FYWYD

Mae Huw Chiswell yn un o'r perfformwyr cerddorol poblogaidd Cymraeg. Yn ei lyfr, *Shwd ma'i yr hen ffrind*, mae e'n ysgrifennu am ei fywyd ac am gefndir y caneuon.

Mae'r gyfrol yn cynnwys geiriau deg o'i ganeuon mwyaf enwog. Yn y gyfrol hunangofiannol, ddadlennol hon, datgelir yr hyn ysgogodd rai o ganeuon enwocaf y canwr-gyfansoddwr poblogaidd a'r cyfan wedi ei blethu â straeon personol a lluniau.

Olrheinir ei fagwraeth yng Nghwm Tawe, ei berthynas â'i deulu a'i natur wrthryfelgar yn ystod ei lencyndod. Rhennir hanesion am gyfnod prifysgol ac am brofiadau amrywiol ym myd teledu – a hynny o flaen y camera a'r tu ôl iddo.

Mae'n siarad yn onest am ei yrfa gerddorol, am y cyfryngau a'r sin gerddoriaeth Gymraeg. Yn gyfeiliant i'r cwbl, mae rhai o'i ganeuon eiconig megis "Y Cwm", "Dwylo dros y môr", "Rhywun yn Gadael" a "Rhywbeth o'i Le".

Meddai fe am ei gân 'Gadael Abertawe':

Mae'r gân hon yn gawdel o brofiadau bore oes, y fagwraeth gapelgar, troeon trwstan a meddylliau am fywyd sy'n cyffwrdd â chrefydd a fydd.

Abertawe yw'r 'dre' i ni hyd heddiw, er iddi ddo yn ddinas yn 1969 ac yn sir arbyn hyn. Tuag Abertawe yr anelwn i am unrhyw siopa na allwn ei gyflawni'n lleol ac am ddilladach, gwersi ffidil a maes o law, trwr a stwr! I'r dre yr anelwn i wyllo'r rygbi ar faes Sain Helen ger y môr, ac o bryd i'w gilydd i'r Vetch a'r pêl-droed.

Ond roedd y berthynas â'r ddinas yn un ddigon cymhleth; wedi'r cyfan, roeddwn i'n bell o fod yn Swansea Jack...


Bydd cyfeiriadaeth ddaearyddol y gân yn gyfarwydd i unrhyw un sy'n adnabod Cwm Tawe. I gychwyn, sgwâr Dyfaty (Dafaty) ar ochr ogledd-ddwyreiniol Abertawe, lle saif tyrau dwbl fflatriau'r ddinas...

A'r gân yn ei blaen wedyn at Eglwys San Pedr, a'i mendwr yw un o brif nodweddion Pontardawe wrth edrych o'r ffordd osgoi, Ffordd Cwm Tawe. Goleuir hon yn achlysurol gan lifoeleuadau neon a bydd y trigolion lleol yn hen gyfarwydd â'i gweld yn 'oren yn y niwl'.

Roedd y capel, yr ysgol Sul a'r Gobeithlu hefyd yn lleoliadau amlwg yn fy mywyd yn blendyn, ond yn ddiamrwyl i mi roedd y traddodiad hwn eisoes yn edwino. A'm profiad innau o'r cyfan wedi'i lastwreiddio o'i gymharu â dwyster profiad cenhedlaeth fy mam...

Caewyd a dymchwelwyd Ysgol Pant-teg, lle bwm yn ddisgybl yn ystod y chwedegau a dechrau'r saithdegau, o ganlyniad i fygythiad y graig, a'r eironi yw mai dyna o bosib fydd tynged Capel Pant-teg Ben Davies ymhen hir a hwyr wrth i dirilithriadau ddigwydd yn fwy mynych byth adeg tywydd gwlyb.

Tristwch affwysol, rhaid cyfaddeg, yw'r prif emosiwn wrth ailadrodd yr hanes hwn. Dadfeiliad yw'r thema yn gyson ac



Ystafell orlawn yn Nhy Tawe ar gyfer Sesiwn gynta' 2020. Hyfryd oedd gweld cymaint o wynebau newydd. Fe fydd y Sesiwn Werin yn parhau eleni eto ar yr ail nos Wener o bob mis.



Daeth llond y bar i Gwis Mawr y Ddegawd, yn Nhy Tawe. A'r cwisfeistri'n gadarn eu penderfyniadau. Tim o Brifysgol Abertawe enillodd, a thim Ysgol Gyfun Bryn Tawe'n agos iawn atyn nhw. Y gobaith yw cynnal cwis arall eto.

yn anffodus, mae'n stori gyfarwydd i lawer o'n cymunedau ôl-ddiwydiannol...

Mae trosiad taith modur y gâm yn cynrychioli gadael ond hefyd, mewn ffordd, dychwelyd. Y tro hwn, dian mewn cyfyngder rhag oferedd y ddinas a dychwelyd am achubiaeth at rywbeth a gollwyd ar hyd y ffordd.

GADAEI ABERTAW

(rhannau)

Gadael Abertawe

Gyrru fel ffwl

Rhywbeth mawr wedi digwydd nawr Methu cadw cwl

Mae'n ddistaw yn y dre

Gwaedu yn fy sedd

Ddylwn wbod gwell na mynd i ganol pethe dwl

Syth drw Sgwâr Dafaty

Cymryd heol y cwm

Sbardun ar y llawr yn awr

Dechre plygu'n grwm

San Pedr, Pontardawe

Oren yn y niwl

A'r lôn yn llifo tano'i

A'r car yn canu'i diwn

...

Ces i 'nghodi yn y capel

Ar air yr ysgol Sul

A rwy'n canu'r hen emyne

Pob cyfle rownd y fil

Ddim yn ddyn crefyddol

Ond m'angen rhywun ar y wil

Rwy wedi colli 'nghrefydd

Ond dal i ddisgwil Duw

Mae gen i bwt o hunan-barch

Er i fywyd fynd ar sgiw

Nawr yn awr y gadael

Ma" angen rhywun wrth y llyw

Hosanna

Iesu rho dy law ar fy mhen

Rwy'n meddwl 'mod i'n mynd.

Hawlfraint Huw Chiswell

GWAHOODIAD I GYFARFOD CYHOEDDUS

Cefnogi'r Gymraeg yn lleol
Dewch i drafod, dewch i gynllunio

Sgeti a'r Cylch
7yh 12fed o Fawrth,
Vivian Arms (ystafell gefn)

GWYBODAETH BELLACH:
Menter Iaith Abertawe
01792 456888
www.menterabertawe.org

Rhif Cwmni: 06693822

EISTEDDFOD DAFARN Tŷ TAWE

UNAWD KARAOKE KAZOO - CÔR GARGLO - CERDD O FAWL I FFORDD Y BRENIN ODLI DAN BWYSAU - LLEFARU HEB ATALNODI - LLAWER MWY!

RYBUDD! CYSIDLEITHIAD DWL A DIGRI

Cystadieuath Tim | £2 y pen
7.30yh Nos Wener yr 20fed o Fawrth
Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe SA1 4EW

01792 456856

MENTER IAITH ABERTAW

01792 456888

TYRFE TAWE 2020

3/1 - Karen Owen
28/2 - GIG Dewi
27/3 - Caeiro O'Neill
24/4 - Aid Samu'iad
29/5 - Gwilym Bowen Rhys
26/6 - Bech
25/9 - Iorri Evans
30/10 - Neil Rosser
27/11 - Elidyr Glyn

8PM
ACWSTIG
AM DDIM

WWW.TYRFE.COM

Tŷ Tawe, 9 Heol Christina, Abertawe, SA1 4EW

Côr Dyfnant yn dathlu 125 mlwyddiant

Mae Côr Meibion Dyfnant yn dathlu ei 125 mlwyddiant eleni.

Cafodd y côr ei sefydlu ym mis Ionawr 1895 gan grwp o lowyr, gweithwyr dur, chwarelwyr ac aelodau o Gapel Ebeneser Dyfnant. Erbyn hyn hwn yw'r côr hynaf yng Nghymru sydd â hanes di-dor o ganu.

Jonathan Rogers yw ei arweinydd ers 2007. Mae'r côr wedi canu yn yr Unol Daleithiau a Chanada a hefyd yn

neuaddau mwyaf adnabyddus Cymru a Lloegr.

Cynhaliodd y Côr gynerdd dathlu'r 125 mlwyddiant yng Nghapel Ebeneser, Dyfnant nos Fercher, Ionawr 22 eleni. Yn ymuno gyda'r côr roedd cantorion o Goleg Gwyr, lle mae'r arweinydd yn gyfrifol am gerddoriaeth. Canwyd etiemau hefyd gan Martin Lloyd sy'n canu gyda Chwmni Opera Cymru.

Ar Chwefror 22 lansiodd y côr Gystadieuath Canwr Ifanc Dyfnant, gyda

gwobr gyntaf o £300 a £100 i rai'n dod yn agos. Caiff y rownd derfynol ei chynnal yng Nghapel Ebeneser, Dyfnant, nos Sadwrn, Ebrill 25 am 7 o'r gloch.

